

## Llais Cymru - Cyfarfod Bwrdd

**Dydd Mercher 26 Mawrth 2025**

**Lleoliad: Future Inn, Heol Hemingway, Caerdydd, CF10  
4AU**

Cyfarfod Zoom

### **Aelodau:**

Grace Quantock  
Alyson Thomas  
Bamidele Adenipekun  
Jack Evershed  
Karen Lewis  
Rajan Madhok  
Jason Smith

Dirprwy Gadeirydd  
Prif Weithredwr  
Anweithredol  
Anweithredol  
Anweithredol  
Anweithredol  
Anweithredol

### **Mynychwyr:**

Angela Mutlow  
Ben Eaton

Charysse Harper

Joanne Bolton  
Richard Bevan  
Kirsty Contreras-Stacey

Cyfarwyddwr Gweithrediadau  
Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth  
Sefydliadol ac Ymgysylltu  
Pennaeth Ecwiti, Amrywiaeth,  
Cynhwysiant a Lles  
Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a  
Gwasanaethau Corfforaethol  
Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro  
Swyddog Llywodraethu

### **Ymddiheuriadau:**

Medwin Hughes  
Mwoyo Makuto

Cadeirydd y Bwrdd  
Aelod Cyswllt

## Croeso, cyflwyniadau

- 1.1 Eglurwyd bod y Cadeirydd wedi'i alw i ffwrdd yn annisgwyl a'i fod wedi gwneud trefniadau i'r Dirprwy Gadeirydd gadeirio Cyfarfod y Bwrdd. Croesawodd y Dirprwy Gadeirydd bawb i'r cyfarfod a chroesawodd hefyd bawb a oedd yn ymuno â'r cyfarfod ar-lein.
- 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Medwin Hughes, Cadeirydd a Mwoyo Makuto, Aelod Cyswllt.

## Datganiadau o Ddiddordeb

- 2.0 Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.

## I'w benderfynu a'i gymeradwyo - Cynllun Blynyddol Drafft 2025/26

- 3.0 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltiad Sefydliadol y Cynllun Blynyddol drafft ar gyfer 2025/2026 a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig, a oedd wedi'u cwblhau.

Eglurwyd bod Llais yn cyrraedd ail flwyddyn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2024-2027. Nod y cynllun blynyddol drafft oedd gwella effaith Llais drwy ganolbwyntio ar gamau gweithredu a fyddai'n ymateb i'r materion pwysicaf i bobl sy'n byw ym mhob rhan o Gymru.

Roedd y cynllun yn ceisio sicrhau bod gwaith ac adnoddau Llais yn cael eu dyrannu i fentrau gyda'r potensial mwyaf ar gyfer newid ystyrion.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Strategol i'r Bwrdd am eu rhan a'u harweiniad wrth ddatblygu'r ddogfen ddrafft. Roedd y cynllun blynyddol drafft yn amlinellu'r rhaglen waith fanwl ar gyfer 2025-2026, a fyddai'n cynnwys:

- blaenoriaethu mentrau a yrrir gan y gymuned, wedi'u hategu gan dystiolaeth gref a mewnwelediadau gan randdeiliaid.

- alinio'n strategol â'n hamcanion 3 blynedd gyda'r nod o gyflawni newid mesuradwy ac ystyrion yn 2025-2026.
- ymrwymadau penodol i gynhwysiant a thegwch, wedi'u hategu gan asesiadau effaith trylwyr.
- Ffocws ar gyflawni canlyniadau diriaethol i unigolion a chymunedau ledled Cymru, wedi'i arwain gan fonitro parhaus.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Blynyddol. Cadarnhawyd y byddai'r Cynllun Blynyddol a'r Aseiad Effaith Integredig (AEI) yn cael eu cyhoeddi.

Byddai amcanion a mentrau'r cynllun wedyn yn cael eu hintegreiddio i brosesau llywodraethu ac atebolrwydd Llais, a byddai ein systemau adrodd a diweddariad yn cael eu darparu yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2025.

## I'w benderfynu a'i gymeradwyo – Cyllideb Llais 2025/26

4.0 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol fod £8.295 miliwn wedi'i ddyrannu i Llais gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd cyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26 i Lywodraeth Cymru a oedd yn gofyn am gynnydd o £759,000 dros gyllidebau sylfaenol 2023/24 a 2024/25.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft, a oedd yn rhoi hwb i Llais, a ymatebodd i gais Llais am adolygiad o'i gyllideb. Felly, roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllideb uwch o £8.295m (a oedd wedi'i haddasu ar gyfer Cyfraniadau Pensiwn wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol - SCAPE). Fodd bynnag, nodwyd bod y gyllideb uwch hon yn dal yn brin o'r gyllideb wreiddiol y gofynnwyd amdani o £192,000.

O ganlyniad, roedd y Tîm Gweithredol wedi cynnal adolygiad manwl o gyllideb ddrafft Llais, gan archwilio gwahanol opsiynau a senarios ac ystyried yr effaith ar gyflawni. Arweiniodd hyn at leihad mewn rhai meysydd gwariant er mwyn sicrhau bod Llais yn parhau i allu cyflawni ei gynlluniau gweithredol wrth aros o fewn y gyllideb a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cymeradwydd y Bwrdd y gyllideb ddrafft arfaethedig ar gyfer 2025/2026.

## I'w benderfynu a'i gymeradwyo – Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024/25

5.0 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Ecwiti, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles fod yn rhaid i Llais adrodd ar sut yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol drwy gynhyrchu adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a rhoddodd drosolwg o'r adroddiad drafft.

Roedd penderfyniad wedi'i wneud i adrodd ar y flwyddyn gyfredol yn rhagweithiol yn hytrach nag yn ôl-weithredol er mwyn sicrhau bod Llais yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyfreithiol gyda llai o siawns o groesi wrth symud i iteriad nesaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2029-2033.

Cymeradwydd y Bwrdd yr adroddiad a diolchodd i gydweithwyr Llais am eu gwaith yn y maes pwysig hwn. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad blynyddol nawr yn cael ei gyhoeddi.

## I'w benderfynu a'i gymeradwyo – Fframwaith Sicrwydd Drafft y Bwrdd 2025/26

6.0 Diolchodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y Bwrdd ac yn arbennig i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am eu rhan yn natblygiad Fframwaith Sicrwydd drafft y Bwrdd.

Darparwyd trosolwg o Fframwaith Sicrwydd drafft y Bwrdd. Eglurwyd bod y Fframwaith wedi'i gynllunio i gynorthwyo a galluogi'r Bwrdd i gymryd sicrwydd o fewn y sefydliad.

Byddai'n helpu i wneud yn siŵr bod Llais yn bodloni ei rwymedigaethau a'i ofynion, ei fod yn gwbl ymwybodol o'r risg o beidio â chyflawni'r strategaeth 3 blynedd a'r cynlluniau blynyddol, ac y gall ddarparu sylfaen gref i roi sicrwydd i'w bartneriaid, Llywodraeth Cymru, a phobl Cymru.

Byddai hefyd yn cefnogi'r Bwrdd yn ei ymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw ym mhob maes o'i waith.

Cymeradwydd y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd drafft y Bwrdd. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad cyntaf yn erbyn y fframwaith yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2025 ac y byddai'n cyd-fynd â'r adroddiadau perfformiad a risg yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun Blynyddol.

## I'w benderfynu a'i gymeradwyo – Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg Drafft

7.0 Eglurodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod Bwrdd Llais wedi mabwysiadu strategaeth rheoli risg ym mis Mawrth 2023.

Fel rhan o'r gwaith adolygu llywodraethu parhaus roedd adolygiad llawn o'r trefniadau rheoli risg wedi'i gynnal. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cyd-fynd â datblygiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Diolchodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am eu cyfranogiad a'u harweiniad ar ddatblygu'r Strategaeth Rheoli Risg adolygedig.

Byddai'r dull newydd yn ceisio gwreiddio'r systemau rheoli risg traddodiadol yn llawn ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, byddai hefyd yn ystyried mabwysiadu dull seiliedig ar gryfder yn gynyddol o reoli risg, a fyddai'n cael ei ystyried ymhellach mewn gweithdy yn ddiweddarach yn 2025.

Cymeradwydd y Bwrdd y Strategaeth Rheoli Risg newydd, a chadarnhawyd y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal adolygiad terfynol a chyhoeddi'r ddogfennaeth. Byddai gwaith wedyn yn cael ei wneud i'w hyrwyddo a'i weithredu ar draws Llais.

## I'w benderfynu a'i gymeradwyo – Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol (VERS)

8.0 Darparodd y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddariad ar y cynnydd gyda'r Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol (VERS), yr oedd y Bwrdd wedi cytuno y gellid ei ddefnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i alluogi newid sefydliadol ymhellach.

Cadarnhawyd bod 12 cais wedi'u derbyn a'u cefnogi. Roedd cytundebau'n cael eu drafftio a'u hanfon at ymgeiswyr, a fyddai

wedyn yn cael eu gofyn i geisio cyngor cyfreithiol cyn llofnodi'r cytundebau.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol i'r Tîm Pobl am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod prysur hwn a chadarnhaodd y byddai diweddariad sefydliadol pellach yn cael ei ddarparu pan fyddai'r cynllun wedi cau eto ar 31 Mawrth 2025.

## Cau'r cyfarfod a dyddiad y cyfarfod nesaf

9.0 Daeth y cyfarfod i ben gyda'r Dirprwy Gadeirydd yn diolch i bawb a fu'n ymwneud â pharatoi'r papurau a chyfrannu at gyfarfod y Bwrdd.

Cadarnhaodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd yn cael ei gynnal ddydd Mercher 23 Ebrill 2025 am 9:30yb, y Ganolfan Busnes Orbit, Merthyr Tudful.

**Daeth y cyfarfod i ben am 18:00yh**